

## Yr Alban yn ysbrydoli

**Mae yna rhywbeth mawr ar droed yn yr Alban. Byddwn yn gwybod canlyniad y Refferendwm erbyn Medi 19 ac fe fydd yn agos. Beth bynnag fydd yn digwydd, mae 'na rywbeth cynhyrfus, ddi-droi'n ôl ar waith yn y wlad. Mae egin-wladwriaeth yn magu stêm gan gynnig gobaith i ni yng Nghymru.**

Bum yn treulio cyfnod byr yn cefnogi'r Ymgyrch Ia dros Annibyniaeth gyda chriw o Blaid Cymru. Roedd **Yes Morningside** yn awyddus i ni helpu drwy ddsbarthu taflenni a newyddlenni yng Nghaeredin. Doedd dim prinder gwirfoddolwyr mewn gwirionedd. I'r gwrthwyneb, roedd y swyddfa yn ferw gwyllt o bobol yn casglu deunydd i'w ddsbarthu o fore gwyn tan nos. Ond roedden nhw'n falch o'r hwb ychwanegol. Ac i ni, roedd yn gyfle i wrando a dysgu hefyd. Rwy'n cyfaddef ... roeddem yn gobeithio cael chwistrelliad o awyr iach, glas yr Alban; i gael ein hysbrydoli; i gael ein harfogi'n emosiynol ar gyfer ein brwydrau ni yng Nghymru. Daethom adra yn llawen, wedi ein cyfareddu gan yr Albanwyr hyderus a'u gweledigaeth am gymdeithas newydd.

Ardal lewyrchus iawn o Gaeredin oedd ein cyrchfan. Tai a cheir crand. Dim y math o ardal y byddech chi'n ddisgwyl gweld tocyn o bosteri glas a gwyn mewn ffenestri. Ond roedd brwdfrydedd heintus Neil a'r criw yn y swyddfa yn ein taro yn syth. Yn sicr, roedd teimpladau cryfion yn erbyn annibyniaeth gan rai etholwyr ond tua hanner a hanner oedd hi ar lawr gwlad... hyn yn oed yn Morningside geidwadol.

Teimpladau hollol bendant oedd gan Neil a'r criw sydd wedi bod wrthi ers misoedd yn paratoi at y diwrnod mawr. Neil wedi bod yn gwirfoddoli yn llawn amser gan roi ei fusnes o'r neilltu am gyfnod. Roedd un gŵr a'i gi tywys wedi bod yn treulio pob pnawn yn sefyll tu allan i'r swyddfa yn ddsbarthu taflenni ers wythnosau. "Dyma ein cyfle," meddai. "Ein cyfle i greu gwlad newydd fydd yn parchu pawb; gwlad gyfartal a theg."

Dyna sy'n eich taro. Maen nhw yn siarad am yr Alban newydd. Geiriau fel cyfiawnder cymdeithasol, tegwch a chyfartaledd. Oes, mae sôn am hunaniaeth a chenedligrwydd, ond mae'r pwyslais ar greu Alban fodern sy'n gofalu am y bregus a'r gwan, sy'n ddsbarthu cyfoeth mewn modd gyfartal, sy'n rhoi'r un cyfle i bawb. Roedd yr edrych mlaen at ddyfodol gwell yn wefreiddiol.

Beth bynnag fydd y canlyniad ar Fedi 18, mae'r cwys wedi ei thorri. "Os enillwn ni, fe ddaw'r freuddwyd yn fyw yn gynt," meddai un arall o weithwyr swyddfa Morningside. "Os collwn ni, fydd yna wrthdaro mawr yn erbyn Llafur am arwain yr ymgyrch NA. Fe fydd yr SNP yn mynd o nerth i nerth ac fe fydd yr Alban yn tyfu mor wahanol i weddill y DU, bydd annibyniaeth yn anorfod maes o law."

Yn hwyr neu'n hwyrach, fe fydd newid ar siâp y gwledydd hyn a rhaid i ni yng Nghymru fod yn gwbl effro a pharod i'r posibiladau cyffrous sydd o'n blaenau. Mae rhywbeth mawr, cynhyrfus ar droed yn yr Alban. A bydd hynny, diolch byth, yn effeithio Cymru yn y pen draw.